



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Polisi 'Prevent'

Dyddiad	Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau
Chwefror 2016	Cymeradwyaeth Gychwynnol	11 Chwefror 2016
30 Ionawr 2017	Adolygu a Chymeradwyo	
Awst 2017 a Medi 2018	Mân newidiadau	
28ain Ionawr 2019	Adolygu a chymeradwyo	

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio	Ysgrifennydd y Brifysgol	Grŵp Tasg Cydymffurfio	28ain Ionawr 2019

Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd.

Polisi 'Prevent'

Nod Prifysgol Bangor yw darparu amgylchedd sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad cadarnhaol ei holl aelodau, fel y gallant wireddu eu posibiliadau'n llawn a chael budd a mwynhad o'r rhan a chwaraeant ym mywyd y Brifysgol. Mae'r gwerthoedd hyn wedi eu cynnwys yng Nghynllun Strategol y Brifysgol hefyd.

I gyrraedd y nod hwn, mae'r brifysgol yn cydnabod bod gan ei holl aelodau a darpar aelodau yr hawliau sylfaenol isod:

- Cael eu trin ag urddas a pharch
- Cael eu trin yn deg
- Cael eu hannog i wireddu eu posibiliadau'n llawn

1. Rhagarweiniad

[a] Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 / Y Strategaeth 'Prevent'

Mae'r Strategaeth 'Prevent' yn ran o'r strategaeth wrthderfysgaeth gyffredinol a adwaenir fel CONTEST¹. Nod y Strategaeth 'Prevent' yw lleihau bygythiad terfysgaeth i'r DU drwy rwystro pobl rhag mynd yn derfysgwyr, neu gefnogi gweithgaredd terfysgol.

Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 ("y Ddeddf") wedi nodi'r angen i "atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth." Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau penodol (yn cynnwys prifysgolion) i roi "ystyriaeth briodol i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth."

[b] Cyd-destun

Mae'r Polisi hwn yn amlinellu agwedd Prifysgol Bangor at sicrhau cydymffurfio â gofynion y Ddeddf a'r Ddyletswydd 'Prevent', ei phroses i ymdrin a phryderon o fewn ei chymuned, a'i chyfraniad i unrhyw ymateb amlasiantaethol i bryderon a fynegir.

2. Cwmpas

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i'r holl unigolion a ddaw i gysylltiad â Phrifysgol Bangor yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i fyfyrwyr Prifysgol Bangor, staff, siaradwyr gwadd, swyddi anrhydeddus a chyfarwyddwr, yn ogystal â chlybiau, cymdeithasau, cynrychiolwyr cwrs, gwirfoddolwyr a swyddogion sabothol Undeb Myfyrwyr Bangor ac aelodau o'r Cyngor.

3. Dull Gweithredu

Fel rhan o'i chyfrifoldebau bydd Prifysgol Bangor yn cynnal asesiad risg sy'n gymesur â maint, cymhlethdod a gosodiad diwylliannol y sefydliad. Bydd yr asesiad risg yn sicrhau bod

¹ Contest 3.0 Mehefin 2018 <https://www.gov.uk/government/publications/counter-terrorism-strategy-contest-2018>

polisiau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i helpu i nodi a chefnogi unigolion a all fod yn agored i niwed a hefyd bod rheolwyr yn goruchwyllo'r gofynion yn glir. Caiff yr asesiad risg ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddar, lle bo'r angen.

[a] Adnabyddiaeth a chefnogaeth

Mae'r Brifysgol yn ceisio adnabod yn gynnar unigolion yn ei chymuned sy'n agored i niwed, bônt yn aelodau o'r staff neu'n fyfyrwyr, a sicrhau y darperir y lles a'r gefnogaeth briodol iddynt. Bydd cyfrifoldebau'r Brifysgol o dan y Ddeddf yn cael eu rheoli yn y lle cyntaf drwy drefniadau diogelu fel yr amlinellir o fewn y Polisi hwn, ym Mholisi Diogelu'r Brifysgol, ac yn y siart lif yn Atodiad 1 y Polisi hwn.

[b] Cyfeirio

Gall unrhyw aelod staff, neu fyfyrwr nodi pryderon am aelodau eraill o staff neu fyfyrwyr sy'n agored i'r risg o gael eu tynnu i mewn i eithafiaeth dreisgar, ar sail wybodaeth maent wedi ei derbyn neu ymddygiad y maent hwy neu unigolyn arall wedi ei weld.

Mae'r Brifysgol yn credu ei bod yn bwysig i'r pryderon hynny gael eu rhannu mewn amgylchedd diogel a chefnogol, lle gellir cynnig ymyriad priodol, os bydd angen.

Mae yna lawer ffordd y gall aelod staff neu fyfyrwr gyfeirio pryderon sydd ganddynt am unigolyn. Oni bai bod bygythiad uniongyrchol (i fywyd neu achosi niwed) awgrymir y dylai pryderon gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at ddarpariaethau diogelu a lles yn naill ai Adnoddau Dynol neu Wasanaethau Myfyrwyr.

Lle bo ddarpariaethau diogelu a lles sydd eisoes yn bodoli wedi eu cynnig, ac mae pryder yn parhau am unigolyn, neu lle bo'r pryder mor fawr ag i gyfiawnhau ei gyfeirio ymlaen ar unwaith at sefydliad allanol, bydd y drefn ganlynol yn berthnasol:-

- i. Dylid mynegi'r pryder yn y lle cyntaf i aelod priodol o staff yn ysgol neu adran yr unigolyn e.e. Pennaeth Ysgol, rheolwr llinell, uwch diwtor etc. a ddylai drafod y mater gyda'r unigolyn sy'n rhoi gwybod am y mater. Bydd yr aelod staff sy'n derbyn y pryder, yn ei dro, yn rhoi gwybod i Gydlynnydd Atal y Brifysgol² neu, yn ei absenoldeb, roi gwybod i'r Dirprwy Gydlynnydd Atal³.

Bydd Gydlynnydd Atal y Brifysgol yn trafod y pryder gyda'r aelod staff sy'n rhoi gwybod amdano, ac yn cynorthwyo i nodi cymorth ychwanegol i'r unigolyn neu'n cynnull y Panel Cyfeirio os yn briodol wedyn fel yr amlinellir yn Atodiad 1 isod.

- ii. Bydd y Panel Cyfeirio yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael ac yn penderfynu a yw'r unigolyn yn cael ei gyfeirio ymlaen i'r Broses Sianel (a hwylusir gan Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdod Lleol perthnasol) neu ei gyfeirio at gael ei ddiogelu neu gael cymorth lles pellach gan sefydliadau.

² Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio

³ Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol

- iii. Bydd Cydlynnydd 'Prevent' y Brifysgol yn cyfeirio'r achos ymlaen at yr asiantaeth statudol briodol.
- iv. Bydd Cydlynnydd 'Prevent' y Brifysgol yn cynrychioli'r Brifysgol mewn cyfarfodydd amlasiantaethol / cyfarfodydd y Panel Sianel mewn perthynas â'r cyfeirio.
- v. Cyfeirio y tu allan i oriau: os bydd angen rhoi gwybod am unrhyw bryder y tu allan i oriau swyddfa arferol, dylid mynegi'r pryder yn y lle cyntaf i adran ddiogelwch y Brifysgol sydd ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn ar (01248) 382795. Dylai'r adran ddiogelwch wedyn fynegi'r pryder i Gydlynnydd 'Prevent' y Brifysgol.

Os oes pryder uniongyrchol o berygl i fywyd neu achosi niwed, y drefn gyfeirio gywir yw ffonio 999 a rhoi gwybod i Gydlynnydd 'Prevent' y Brifysgol cyn gynted ag y bo modd.

4. Rhannu Gwybodaeth

Wrth ddilyn y drefn a amlinellir yn Adran 3[b] uchod, a hefyd yn Atodiad 1 gall fod achosion lle mae'r Brifysgol yn ddigon pryderus am les unigolyn fel bod rhaid rhannu'r pryderon hyn gydag asiantaethau allanol. Gall hyn gynnwys cyfeirio i'r broses Sianel, a / neu gyfeirio i Heddlu Gogledd Cymru (yn ôl amodau y Cytundeb Rhannu Gwybodaeth).

Wrth benderfynu ynglŷn â rhannu gwybodaeth gyda thrydydd parti (fel yn Adran 3[b] uchod) bydd y brifysgol yn cadw at ei Pholisi Diogelu Data, gofynion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), y Ddeddf Diogelu Data 2018, a'r egwyddorion sydd ynddynt. Caiff cofnodion cyfrinachol am y wybodaeth a rennir eu cadw gan Gydlynnydd 'Prevent' y Brifysgol yn y Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio, yn unol â gofynion Deddf Gwarchod Data 2018.

Caiff ceisiadau gan yr heddlu / gwasanaethau diogelwch am unigolion ym Mhrifysgol Bangor eu trin gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn unol â gofynion deddfwriaethol cyfredol a pholisïau'r Brifysgol.

Ym mhob achos bydd rheidrwydd, cymesuredd, risg a lle bynnag y bo'n bosibl cydsyniad yr unigolyn, yn elfennau allweddol i benderfynu a bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ai peidio.

5. Hyfforddiant

Bydd y Brifysgol yn sicrhau y cynigir hyfforddiant ac ymwybyddiaeth priodol i staff ar bob lefel yn y brifysgol, ac awgrymir yn arbennig bod aelodau staff yn y gwasanaethau canlynol yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddyletswydd 'Prevent':-

- Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio;
- Adnoddau Dynol;
- Y Ganolfan Addysg Ryngwladol;

- Gwasanaethau Myfyrwyr, ac yn arbennig ymgynghorwyr iechyd meddwl a chynghorwyr;
- Gwasanaethau Eiddo a Champws, ac yn arbennig yr adran ddiogelwch;
- Gwasanaethau Masnachol (ac yn arbennig Uwch Wardeniaid a Wardeniaid Myfyrwyr staff archebu cynadleddau ac ystafelloedd)
- Uwch Diwtoriaid a thiwtorïaid personol;
- Gweinyddwyr colegau ac ysgolion academiaidd.

Dylai'r holl aelodau staff eraill yn y gwasanaethau canolog ac ysgolion academiaidd gael gwybod am y ddyletsydd 'Prevent' a'r dulliau cyfeirio i fynegi pryderon.

6. Deunydd Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch

Yn dilyn cyhoeddi dogfen y UUK "*Oversight of Security Sensitive Research Material*"⁴ (UUK 2012) mae'r Brifysgol wedi sefydlu Trefn Gymeradwyo a Chofrestru Projectau Ymchwil Sensitif i ddenu a dal manylion am ymchwil sydd naill ai'n [a] sensitif o ran diogelwch neu [b] gyda'r potensial i niweidio enw da'r Brifysgol.

Goruchwylir y broses hon gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol a chaiff ei rheoli o ddydd i ddydd gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.

7. Cysylltiadau gyda Pholisïau a Dulliau Gweithredu eraill

Mae cysylltiad agos rhwng y polisi hwn a pholisïau a dulliau gweithredu eraill y Brifysgol. Yn arbennig:

- *Y Cod Ymarfer ar Ryddid i Lefaru sy'n* cynnwys proses i gymeradwyo siaradwyr allanol. Bydd y Grŵp Goruchwylio Rhyddid i Lefaru yn rheoli gofynion y Cod Ymarfer a bydd rheolwyr hefyd yn goruchwylio ystafelloedd ffydd y Brifysgol.
- *Y Rheoliadau Defnydd Derbyniol y Brifysgol* sydd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ofynion Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.
- *Y Polisi Diogelu sy'n* amlinellu gweithdrefnau'r Brifysgol wrth ddelio gyda materion diogelu.

8. Cwynion

Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn cydlynu unrhyw gwynion a dderbynnir yng nghyd-destun y polisi hwn.

- Dylid cyfeirio'r gwyn at y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn y lle cyntaf. Cydnabyddir derbyn y gwyn yn syth, a gwneir pob ymdrech resymol i gynnig ateb mwy cynhwysfawr o fewn 21 niwrnod.

⁴ Ar gael o wefan y Brifysgol

- Os nad yw'r ymgeisydd yn fodlon â'r ateb, dylai hysbysu'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio o fewn 21 niwrnod. Bydd y gwyn yn cael ei chyfeirio wedyn at Ysgrifennydd y Brifysgol, ac ymdrinnir â hi yn unol â Threfn Cwynion Staff a Chwynion Cyffredinol y Brifysgol, neu Drefn Cwynion Myfyrwyr y Brifysgol, fel sy'n briodol.

Os yw ymgeiswyr yn anfodlon â chanlyniad y drefn gwyno, ac ar gyfer cwynion cydymffurfio Prevent yn unig, gallant gysylltu hefo Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), sydd â chyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol i fonitro cydymffurfio gyda'r dylestwydd Prevent ar gyfer darparwyr addysg uwch perthnasol yng Nghymru.


Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Tŷ Afon
Bedwas Road
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

Ffon: 029 2085 9696

Gwe: www.hefcw.ac.uk

Ebost: complaints@hefcw.ac.uk

Information Sharing Procedure: Vulnerable Student or Member of Staff



Atodiad 2

Prifysgol Bangor Panel Dyletswydd 'Prevent' a Chyfeirio

Aelodaeth Graidd

Ysgrifennydd y Brifysgol (Cadeirydd)
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
Dirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr)
Cydlynnydd 'Prevent' y Brifysgol

Yn ogystal dylid gwahodd un neu fwy o'r canlynol:

Cyfeirio Myfyriwr

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr
Cyfarwyddwr, Undeb Myfyrwyr Bangor
Llywydd, Undeb y Myfyrwyr

Cyfeirio Staff

Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol (Dirprwy Gydlynnydd 'Prevent')

Cylch Gorchwyl

1. Bydd y Panel Dyletswydd 'Prevent' a Chyfeirio ("y Panel") yn cael ei gynnull gan y Cydlynnydd 'Prevent' y Brifysgol mewn ymateb i bryder a fynegwyd mewn perthynas ag unigolyn a all fod ar risg o gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth dreisgar.
2. Bydd y Panel yn cynnwys yr unigolyn a nodir uchod (fel y bo'n briodol), ond gall y Cadeirydd ofyn i aelodau perthnasol eraill o'r staff fod yn bresennol yn y cyfarfod, fel bo'n briodol, i gynnig gwybodaeth bellach a/neu gyngor.
3. Caiff y Panel ei gynnull fesul achos a bydd yn penderfynu a yw achos unigol yn cael ei gyfeirio at asiantaeth allanol i gael cymorth pellach, ei gyfeirio i'r broses Panel Sianel, neu ei gyfeirio yn ôl i ddarpariaethau lles a diogelu presennol y Brifysgol.
4. Darperir adroddiadau anhysbys o gyfarfodydd y Panel i'r Grŵp Tasg Cydymffurfio, at ddibenion monitro, yn ei gyfarfod nesaf.